

## **Safonau'r Iaith Gymraeg – Polisiau**

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â 11 o Safonau Llundain Polisi sy'n ymwneud â llunio neu adolygu polisi ac ag ymgynghori ar bolisi. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried cyn bod penderfyniadau polisi yn cael eu gweithredu. Cyfeirir yn benodol at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Diffiniad o Benderfyniad Polisi**

Mae Rheoliadau'r Safonau'r Gymraeg yn diffinio penderfyniadau polisi (mewn prifysgol) fel penderfyniad sy'n ymwneud â

- derbyn a dethol myfyrwyr
- gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y brifysgol
- lles myfyrwyr
- cwynion
- achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyrwyr
- gwasanaeth gyrfaedd
- gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu
- seremonïau graddio a gwobrwyo
- asesu neu arholi myfyriwr
- dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol
- darlithoedd cyhoeddus
- cyfleoedd dysgu
- cyrsiau (gan gynnwys modiwlau unigol a chynlluniau gradd)
- arwyddion ar adeiladau'r brifysgol
- llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau
- dyrannu tiwtor personol
- galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth a systemau ffôn wedi'u hawtomeiddio.
- cynnwys deddfwriaeth
- arfer pwerau statudol
- cynnwys datganiadau polisi
- strategaethau neu gynlluniau strategol
- strwythurau mewnol
- lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau
- recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr
- polisiau Adnoddau Dynol

## Diffiniad o Gyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg

Diffinir hyn fel cyfleoedd i:

- gael gwasanaethau Cymraeg
- defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- siarad Cymraeg yn gymdeithasol neu yn y gymuned
- cael addysg Gymraeg

## Diffiniad o Beidio Trin y Gymraeg yn Llai Ffafriol

Ni ddylai person sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg fod o dan anfantais a ni ddylid rhoi'r argraff mai'r Saesneg yw'r iaith diofyn yn nghyd destun y canlynol:

- gwedd a golwg
- hygyrchedd
- cywirdeb
- anghyfleustra
- cost
- oedi
- iaith diofyn

## Sut i ystyried y Gymraeg wrth lunio/adolygu Polisi

Wrth lunio/adolygu polisi mae'n rhaid

- ystyried a fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith ar y Gymraeg, yn arbennig ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- ystyried a yw'r effaith hwnnw yn un andwyol neu gadarnhaol
- ystyried a fyddai'r penderfyniad polisi yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wedi ystyried yr uchod, os credir y byddai'r effaith yn un andwyol rhaid

- ystyried sut gellir newid y polisi i'w wneud yn effaith cadarnhaol neu yn un llai andwyol

Os credir y byddai'r effaith yn un cadarnhaol rhaid

- ystyried sut gellir newid y polisi i'w wneud yn fwy cadarnhaol.

Er mwyn hwyluso'r broses a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried rydym wedi llunio **Offeryn Aseiad Ardrawiad Iaith** a dylid llenwi hyn bob tro bod polisi yn cael ei lunio neu ei adolygu.

## **Dogfennau Ymgynghori – Ystyried y Gymraeg**

Cyn gwneud penderfyniad polisi bydd y Brifysgol weithiau yn cyhoeddi dogfen ymgynghori er mwyn sicrhau bod y dewisiadau gorau yn cael eu gwneud wrth benderfynu polisi. Wrth gyhoeddi dogfen o'r fath dylid sicrhau bod cwestiwn am y Gymraeg yn cael ei ofyn wrth geisio ac ystyried barn pobl. Yn y ddogfen ymgynghori dylid cynnwys brawddeg debyg i :-

*Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, fel rhan o unrhyw broses ymgynghori, mae'n rhaid i'r Brifysgol ofyn eich barn a fyddai hyn yn cael effaith ar a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid gofyn hefyd a ydych yn ystyried bod modd llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, neu a oes modd llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol yn eich barn chi? Ac os felly sut?*

*Under the terms of the Welsh Language Standards, the University as part of any consultation process must seek your views on whether this would have any effect on a) opportunities for persons to use the Welsh language, and b) treating the Welsh language no less favourably than the English language. Your views are sought also on whether you consider the policy could be formulated or revised so that it would have a positive or increased positive effect, or whether the policy could be formulated or revised so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects. And if so, how?*

## **Dyfarnu Grantiau a Darparu Cymorth Ariannol**

Wrth wneud penderfyniad ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol mae'n rhaid

- ystyried a fyddai dyfarnu'r grant neu ddarparu cymorth ariannol yn cael effaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- ystyried a yw'r effaith hwnnw yn un andwyol neu gadarnhaol
- ystyried a fyddai hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wedi ystyried yr uchod, rhaid

- ystyried sut y gellid gweithredu'r penderfyniad (er enghraifft drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, mwy cadarnhaol neu yn llai andwyol.

Rhaid i chi hefyd ystyried

- a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar y Gymraeg.

## **Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil ar gyfer penderfyniad polisi**

Os byddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar

- cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn

- ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, mwy cadarnhaol neu yn llai andwyol.

## **Datblygu, Addasu neu Ddileu cwrs neu gydran o gwrs**

Pan fyddwch yn datblygu, addasu neu yn dileu cwrs neu unrhyw gydran o gwrs, rhaid i chi ystyried

- pa effeithiau (os o gwbl) y byddai'r cwrs hwnnw, neu ddileu'r cwrs hwnnw, yn ei gael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- a yw'r effaith hwnnw yn un andwyol neu gadarnhaol
- a fyddai 'r cwrs, neu ddileu'r cwrs, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- sut y byddai'r cwrs hwnnw, neu ddileu'r cwrs hwnnw, yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy cadarnhaol
- sut na fyddai'r cwrs hwnnw, neu na fyddai dileu'r cwrs hwnnw, yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol

## Llifsiart – Canllaw i'r Aseiad Ardrawiad Iaith

A fydd y penderfyniad polisi yn cael effaith ar y Gymraeg?

Bydd.

A yw'r effaith yn un cadarnhaol?

Na fydd.

Diwedd y broses

Nac ydi. Mae'n andwyol.

Oes modd newid yr effaith andwyol fel ei fod yn gadarnhaol?

Ydi.

Oes modd ei wneud yn fwy cadarnhaol?

Oes.

Nodwch y newidiadau sydd eu hangen fel nad oes effaith andwyol.

Nac oes.

Oes modd gwneud yr effaith andwyol yn llai andwyol mewn rhyw ffordd?

Oes.

Nodwch y newidiadau sydd eu hangen i'w gwneud yn fwy cadarnhaol.

Nac oes.

Nodwch hynny yn yr aseiad.

Oes.

Nodwch y newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwneud yr effaith yn llai andwyol.

Nac oes.

Nodwch hynny yn yr aseiad gan egluro eich bod wedi rhoi ystyriaeth i hyn ond wedi methu â chanfod datrysiaid.